

Annwyl Cyfarwyddwr

Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan arolygiad AGC o'r gwasanaethau plant ym mis Gorffennaf 2018 a gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y cyfarfodydd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn â phenaethiaid y gwasanaethau perthnasol. Roedd AGC hefyd yn rhan o ymweliad â'r tîm iechyd meddwl cymunedol ym Merthyr Tudful, fel rhan o raglen o arolygiadau a gynhaliwyd mewn partneriaeth ag AGIC.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Caerfyrddin
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIWLocalAuthority@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Carmarthen Office
Welsh Government
Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen
SA31 3BT
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 1 Mai 2019.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

O ganlyniad i newidiadau yn y cylch etholiadol hwn, penodwyd cabinet newydd, gyda grŵp annibynnol yn cadw rheolaeth gyffredinol, yn dilyn canlyniad isetholiad diweddar. Mae arweinydd newydd y cabinet yn ymddiddori'n fawr yn y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r aelodau etholedig yn cydnabod yr heriau y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu ac yn gwerthfawrogi'r pwysau cyllidebol sydd arnynt, yng nghyd-destun y rheini sy'n wynebu'r awdurdod ehangach. Mae sefyllfa ariannol yr awdurdod lleol yn faes sy'n peri pryder difrifol. Mae cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ynghyd â'r gwariant cysylltiedig ar leoliadau wedi cyfrannu'n sylweddol at y pwysau ariannol hwn.

Er gwaethaf y sefyllfa ariannol, mae angen cyflymu graddfa'r newid wrth ddiweddarau darpariaeth fewnol yr awdurdod lleol yn unol â chymhlethdod cynyddol o anghenion a disgwyliadau pobl.

Gwelwyd heriau penodol eleni mewn perthynas â darparu gofal cartref sydd wedi gweld y cyflog byw yn cael ei gyflwyno i'r staff a gyflogir yn y sector ar draws y rhanbarth. Er y croesawyd hyn o ran yr effaith ehangach gadarnhaol ar recriwtio a chadw, mae hyn wedi ychwanegu at y pwysau ariannol cyffredinol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Nododd uwch-reolwyr fod hyn yn eu rhoi 'dan bwysau', ond nad yw'n effeithio ar wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd.

Gwnaethom arolygu gwasanaethau gan ganolbwyntio ar blant sy'n derbyn gofal â'r rheini sy'n gadael gofal a gwelsom fod cymorth corfforaethol da i'r gwasanaethau plant gan yr aelodau etholedig a'r cyngor ehangach. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n newid ei 'gynnig' cyffredinol i'r rheini sy'n gadael gofal drwy broses aildendro, ac mae'n gadarnhaol nodi bod elfennau sylweddol o hyn wedi cael eu cydgynhyrchu gyda phobl ifanc, eu llywio ganddynt a'u bod wedi rhoi adborth arnynt.

- Pobl – llais a rheolaeth

Mewn perthynas â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, cawsom wybod fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cydymffurfio â'r cynnig rhagweithiol a bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gallu cefnogi anghenion defnyddwyr gwasanaeth a nodwyd a rhai a ragwelir. Nid oes llawer o alw am wasanaethau Cymraeg ym Merthyr Tudful ar hyn o bryd. Mae Swyddog y Gymraeg yn newydd yn ei swydd ac mae wrthi'n hyrwyddo digwyddiadau ar gyfer staff y gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd yn unol â menter 'Mwy na Geiriau'. Mae'r gwasanaeth drws ffrynt yn cael ei werthuso gan yr awdurdod lleol i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y Gymraeg yn cael eu hadolygu.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom enghreifftiau o arfer da yn y gwasanaethau plant ond nid oedd y safon hon yn cael ei chynnal yn gyson ym mhob tîm. Roedd llithro amlwg i'w weld mewn nifer fach o achosion mewn perthynas ag asesu a darparu gofal i blant a'u teuluoedd,

a gwelsom oedi wrth drosglwyddo gofal rhwng timau hefyd. Roedd gan y staff ymrwymiad proffesiynol clir i blant a phobl ifanc ac roeddent yn amlwg yn ymroddedig i gyflwyno safon uchel o ofal. Lluniwyd cynllun gweithredu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac mae effeithiolrwydd rhai o'r mesurau hyn yn debygol o fod yn ffocws mewn rhai o weithgareddau â ffocws AGC sydd ar ddod.

Gwelsom fod angen datblygu prosesau sicrhau ansawdd ymhellach ar draws y gwasanaeth er mwyn hyrwyddo cysondeb ac ymgorffori unrhyw wersi a ddysgir o weithgareddau archwilio a rheoli perfformiad.

Rhoddodd yr awdurdod lleol blentyn mewn lleoliad heb ei gofrestru gan nad oedd lleoliad preswyl amgen addas. Mae'r awdurdod lleol wedi dangos ei fod yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion penodol yr unigolyn yn ei ofal ac mae wedi rhoi gwybod i AGC am ddatblygiadau drwy gydol y broses. Disgwylir i'r mater hwn gael ei ddatrys drwy gofrestrriad llwyddiannus y darparwr sy'n cael ei brosesu ar hyn o bryd.

Mae gallu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i cwrdd â'r angen presennol i blant sydd angen gofal a chymorth rheoledig wedi gweld her sylweddol, gyda nifer y plant sy'n derbyn gofal ar y lefel uchaf yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi'i gysylltu gyda nifer o resymau, gan arwain at ddefnyddio staff ychwanegol ac adnoddau eraill sy'n ofynnol er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol yr awdurdod.

Mae'r awdurdod lleol wedi profi anawsterau parhaus wrth recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol sy'n gymwys ac yn ddigon profiadol mewn gwasanaethau plant, er ei fod yn galonogol nodi bod y defnydd o weithwyr asiantaeth, i lenwi swyddi tymor byr, wedi lleihau.

Rydym wedi ceisio sicrwydd gan yr awdurdod lleol o ran gallu yn y gwasanaethau cymdeithasol o ganlyniad i newidiadau allweddol yn dilyn cynllun gadael yn wirfoddol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ymwybodol o'r angen i roi sylw brys i'w heriau ariannol er mwyn ei alluogi i ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy i bobl.

Disgwylir i gynlluniau hirsefydlog i ail-lunio'r gwasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu gael eu rhoi ar waith. Byddant yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth a nodwyd, sef cyflogaeth, tai ac iechyd. Mae cael partneriaethau rhanbarthol yn allweddol i ddatblygu'r cynlluniau hyn, fel y nodir mewn 'datganiad o fwriad' a luniwyd ar y cyd. Unwaith eto, mae'r rhain wedi cael eu nodi o ganlyniad i gydgyhyrchu sylweddol ar y cyd â defnyddwyr presennol y gwasanaethau hyn, eu teuluoedd a phobl eraill â diddordeb.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Mae gwaith sylweddol i ail-lunio'r gwasanaethau ataliol i blant ar y gweill. 'Hwb Cymorth Cynnar' yw'r cam cyntaf yn y cynllun. Caiff y cam nesaf - cefnogi newid - ei roi ar waith ar ôl i gyllid gael ei ryddhau pan fydd yr awdurdod yn tynnu allan o drefniadau rhanbarthol presennol y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd, gan alluogi i'r trefniadau newydd fod yn gwbl weithredol erbyn 2020/21. Eto, mae'n debygol y bydd effaith y newidiadau hyn ar

ganlyniadau i blant a'u teuluoedd yn ffocws ar gyfer rhai o weithgareddau AGC sydd ar ddod.

Adroddir ar ganlyniadau'r arolygiad diweddar gan AGIC ac AGC o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ym Merthyr maes o law. Mae canfyddiadau rhagarweiniol yn awgrymu bod cydberthnasau cadarn rhwng gweithwyr proffesiynol yn tanategu'r canlyniadau cadarnhaol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn. Yn ogystal, tynnwyd sylw at faterion mewn perthynas â chymeradwyo cynlluniau gofal a chymorth, integreiddio cronfa ddata'r bwrdd iechyd/mynediad a rennir at wybodaeth ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, yr angen i sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu ar sail amlasiantaeth a bod cofnodion cywir yn cael eu cadw am hyn. Datblygwyd cynllun gweithredu iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd mewn ymateb i hyn.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Mewn ymateb i'r angen a nodwyd i gael trefniadau mwy cadarn ar gyfer sicrhau lleoliadau i blant ag anghenion mwy cymhleth, mae'r gwasanaethau plant yn llunio strategaeth gomisiynu ddiwygiedig ar y cyd â phartïon eraill â diddordeb, gan gynnwys Consortïwm Comisiynu Plant Cymru.

Mae cydberthnasau gweithredol a strategol effeithiol â phartneriaid rhanbarthol eraill wedi hwyluso rhai prosiectau blaengar, megis y fenter amlasiantaeth mewn ysbytai, Cadw'n Iach Gartref, a phrosiect arfaethedig Valley LIFE. Mae hyn yn dangos ymrwymiad cryf i gydgyhyrchu ar draws ei wasanaethau. Mae'r awdurdod a'i bartneriaid yn ymwybodol bod angen sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y fenter hon a phrosiectau eraill sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol gan eu bod yn ddibynnol iawn ar gyllid grant, byrdymor yn y cyfamser.

Gwelsom fod dull gweithredu amlddisgyblaeth effeithiol yn yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn cynorthwyo gyda hyrwyddo arfer diogelu cadarn.

Mewn perthynas â Phen-y-bont ar Ogwr yn cyfranogi yn nhrefniadau Cwm Taf Morgannwg a ffurfiwyd yn ddiweddar, caiff nifer o drefniadau 'cysgodi' a fu ar waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (er enghraifft mewn perthynas â'r bwrdd diogelu rhanbarthol) eu gweithredu'n llawn. Bydd gwasanaethau eraill, megis y Gwasanaeth Troseddwy'r Ifanc a threfniadau hyfforddiant staff, yn parhau i gael eu cynnal a'u rheoli yn unol â'r trefniadau presennol, hyd nes ceir trafodaeth bellach. Mae'r strwythur rhanbarthol diwygiedig hefyd yn cynnig cyfleoedd i gryfhau arfer a dysgu gan eraill.

Yn ei hunanasesiad o wasanaethau ataliol yn y gymuned i oedolion dros 65 oed, mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r angen i wneud mwy i hyrwyddo mentrau cymdeithasol a phartneriaid trydydd sector eraill ar gyfer darparu gofal a chymorth i ofalwyr. Mae mentrau a ddylunnir i ddiwallu'r angen hwn yn debygol o gael eu datblygu ar draws y rhanbarth.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn, ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabwliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Mae'n debygol y bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn cynnwys cymryd camau dilynol i adolygu canfyddiadau'r arolygiad sy'n ymwneud â'r gwasanaethau plant a phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Bydd ein gwaith ymgysylltu yn y gwasanaethau oedolion yn canolbwyntio ar bobl dros 65 oed yn y gymuned a gwasanaethau dydd o bosibl.

Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Sharon Eastlake', with a stylized flourish at the end.

Sharon Eastlake

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro

Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.
SAC
AGIC
Estyn